




Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Arolygon gwirio gwefannau: Rheoleiddwyr Proffesiynau Iechyd (Rheoliadau Rhif 8)



---

## Cynnwys

|   |                            |   |
|---|----------------------------|---|
| 1 | Cyflwyniad                 | 1 |
| 2 | Methodoleg                 | 1 |
| 3 | Canfyddiadau a Tueddiadau  | 2 |
| 4 | Casgliadau ac Argymhellion | 4 |
|   | Atodiadau                  | 6 |

# 1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau unigol o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Rydym wedi penderfynu arolygu gwefannau y sector hwn yn ystod y chwarter presennol. Y prif reswm dros hyn yw nad yw'r gwefannau wedi'u gwirio o'r blaen fel rhan o'r cynllun monitro diwethaf, gan nad oedd y sector wedi bod yn ddarostyngedig i'r safonau ers tro. O ganlyniad, rydym yn awyddus i gasglu data gwaelodlin cadarn er mwyn cael darlun cliriach o lefel cydymffurfiaeth gyfredol y sefydliadau hyn gyda'r safonau perthnasol.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd gyda'r Rheoleiddwyr Proffesiynau Iechyd sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 8. Mae hefyd yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad.

## 2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd prif wefannau corfforaethol y naw sefydliad sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 8. Cynhaliwyd yr arolygon yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 2025.
- 2.2 Mae Rheoliadau Rhif 8, sef y Rheoliadau sy'n berthnasol i'r sector hwn, yn cynnwys dwy safon sy'n ymwneud â gwefannau, sef safon 33 a safon 34, sy'n nodi gofynion penodol ar gyfer argaeledd a chysondeb darpariaeth Gymraeg ar lwyfannau ar-lein.
- 2.3 Mae safon 33 yn nodi:

*“Rhaid ichi ddynodi a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich gwefan sy'n darparu gwybodaeth (yn Gymraeg) –*

  - (a) *Amdanoch chi,*
  - (b) *Am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yn gyffredinol,*
  - (c) *Am y gwasanaethau yr ydych yn eu darparu yng Nghymru,*
  - (ch) *Am sut i wneud cwyn ynghylch person sy'n cael ei reoleiddio gennych,*

*(d) Am y gwasanaethau Cymraeg yr ydych yn eu darparu a sut y gellir cael gafael ar bob un o'r gwasanaethau Cymraeg hynny."*

2.4 Mae safon 34 yn nodi:

*"Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid i chi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol"*

2.5 Canolbwyntiodd yr arolygon hyn ar asesu gydymffurfiaeth â'r ddwy safon uchod, gan wirio i ba raddau mae'r sefydliadau yn bodloni'r gofynion.

2.6 Wrth gynnal yr arolwg, gwiriwyd a oedd yr holl wybodaeth ofynnol a restrir o dan safon 33 ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Yn ogystal, aseswyd a oedd y tudalennau cyfatebol yn Saesneg yn cynnwys dolen a datganiad clir yn hysbysebu bod y wybodaeth gyfan ar gael yn Gymraeg, fel y mae'r safon yn ei fynnu.

2.7 Fe wirwyd cyfanswm o 24 o dudalennau.

### 3 Canfyddiadau a Tueddiadau

3.1 Roedd gan bob un o'r sefydliadau wefan gyda thudalennau Cymraeg, er bod y cynnwys a'r ffordd yr oedd y tudalennau wedi'u gosod allan yn amrywio.

3.2 Roedd tri sefydliad yn darparu 'Hafan Cymraeg' benodol lle'r oedd yr holl wybodaeth ofynnol o dan safon 33 ar gael yn Gymraeg mewn un lleoliad. Roedd hyn yn ffordd hwylus o gyflwyno'r wybodaeth, ac yn hawdd i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r wybodaeth Gymraeg berthnasol.

3.3 Roedd rhai sefydliadau wedi cyfieithu'r tudalennau perthnasol yn unig, yn unol â gofynion safon 33. Yn yr achosion hyn, roedd y tudalennau Saesneg yn cynnwys datganiad clir neu ddolen/togl iaith yn nodi bod y wybodaeth ar gael yn Gymraeg.


3.4 Er nad oes gofyniad statudol i sicrhau bod eu gwefan ar gael yn gwbl ddwyieithog, nifer o sefydliadau'n cynnwys llawer o dudalennau Cymraeg ychwanegol y tu hwnt i'r gofynion. Mae hyn yn dangos ymdrech gydwybodol a bwriadol i gynyddu a gwella eu darpariaeth Gymraeg.

3.5 Roedd pob sefydliad yn darparu'r wybodaeth ofynnol o dan pwyntiau (a) a (b) Safon 33 yn Gymraeg, sef gwybodaeth am y sefydliad a gwybodaeth am eu gweithgareddau yn gyffredinol.

3.6 Roedd rhai sefydliadau hefyd yn darparu gwybodaeth benodol am eu gweithgareddau yng Nghymru (yn unol a phwynt (c) safon 33). Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif yn manylu ar hyn, a dim ond gwybodaeth gyffredinol am eu gweithgaredd ar draws y DU oedd ar gael.

3.7 Roedd pob sefydliad yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg ar sut i wneud cwyn ynghylch unigolyn sy'n cael eu reoleiddio ganddynt, fel sy'n ofynnol o dan bwynt (ch) safon 33.


- 3.8 Roedd lefelau cydymffurfiaeth â phwynt (d) safon 33, sef darparu gwybodaeth yn Gymraeg am y gwasanaethau Cymraeg maent yn eu darparu a sut i gael mynediad atynt, yn amrywio'n sylweddol.
- 3.9 Roedd nifer o sefydliadau'n cynnwys tudalen benodol ar Safonau'r Gymraeg, yn amlinellu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac yn aml yn darparu copiâu o'u hysbysiad cydymffurfio neu eu hadroddiad blynyddol mwyaf diweddar Safonau'r Gymraeg mwyaf diweddar. Byddem yn ystyried bod hyn yn bodloni'r gofynion y safon.
- 3.10 Fodd bynnag, roedd o leiaf dau sefydliad heb gynnwys unrhyw wybodaeth am y Safonau na'u dyletswydd statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, gan olygu nad oedd hi'n glir pa wasanaethau Cymraeg oedd ar gael i ddefnyddwyr.



- 3.11 O dan safon 34, canfuwyd bod chwe sefydliad yn defnyddio botwm togl iaith ar ben y wefan lle oedd posib cael mynediad i'r fersiwn Gymraeg o'r dudalen honno os oedd fersiwn Cymraeg yn bodoli. Roedd y tri sefydliad arall yn defnyddio botwm 'Cymraeg' tebyg, ond yn hytrach na mynd â defnyddiwr i'r dudalen gyfatebol, roedd y botwm yn mynd a'r defnyddiwr yn uniongyrchol i'r 'Hafan Cymraeg', lle'r oedd yr holl gynnwys Cymraeg ar gael mewn un lle.

Mae safon 34 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu datganiad clir ar unrhyw dudalen lle mae fersiwn Gymraeg ar gael, ynghyd â dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg honno. Mae botwm togl iaith yn bodloni'r gofyniad am ddolen uniongyrchol, ond gall sefydliadau wella cydymffurfiaeth ymhellach drwy gynnwys datganiad amlwg ar y dudalen Saesneg hefyd, gan wneud y ddarpariaeth Gymraeg yn fwy gweladwy ac yn haws i'w defnyddio.

## CYDYMFFURFIAETH Â SAFON 34



## 4 Casgliadau ac Argymhellion

- 4.1 Gan ystyried fod y gofynion statudol ar gyfer gwefannau yn y sector hwn yn gymharol gyfyngedig, dylai'r gallu i gydymffurfio fod yn gymharol syml. Nid oes gofyn iddynt sicrhau fod eu gwefannau yn gwbl ddwyieithog, ond yn hytrach sicrhau bod y cynnwys penodol a nodir yn y safonau ar gael yn Gymraeg ac yn hawdd ei ganfod.
- 4.2 Ar y cyfan, cofnodwyd lefelau cydymffurfio cadarnhaol, gyda phob sefydliad naill ai'n cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â gofynion safon 33. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac wedi cymryd camau i sicrhau bod y cynnwys gorfodol ar gael yn Gymraeg.
- 4.3 Roedd dulliau'r sefydliadau o gyflwyno'r wybodaeth ofynnol yn amrywio. Roedd rhai'n dewis dynodi un adran benodol ar y wefan ar gyfer y cynnwys Cymraeg, tra bod eraill yn cyfieithu'r tudalennau perthnasol ac yn eu cadw nhw mewn manau penodol ar draws y wefan. Gan nad yw'r safonau'n rhagnodi ffurf benodol ar gyflwyno'r wybodaeth, mae gan sefydliadau ryddid i ddewis y dull mwyaf ymarferol—ar yr amod fod yr holl wybodaeth ofynnol yn bresennol ac yn hygyrch i ddefnyddwyr.
- 4.4 Roedd cydymffurfiaeth â safon 34 hefyd yn gymharol uchel, gyda phob sefydliad yn defnyddio togl iaith neu fotwm penodol ar gyfer y Gymraeg ar flaen eu gwefan. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safon, byddai cynnwys datganiad clir ar y tudalennau Saesneg cyfatebol yn gwella tryloywder ac yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall bod fersiwn Gymraeg ar gael.
- 4.5 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 8:

### **Argymhelliad 1: Gwybodaeth benodol am weithgarwch yng Nghymru**

Dylai sefydliadau sicrhau bod gwybodaeth glir ar y wefan sy'n amlinellu'n benodol eu gweithgarwch yng Nghymru. Gall hyn fod ar ffurf adran neu dudalen bwrsol sy'n

gwahaniaethu'n eglur rhwng gweithgarwch y sefydliad yng Nghymru a gwybodaeth ehangach am waith ar draws y DU neu'n rhyngwladol.

### **Argymhelliad 2: Trefnu gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg**

Dylai sefydliadau sicrhau bod tudalen neu adran benodol ar y wefan sy'n nodi'n glir pa wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu darparu ac esbonio sut y gall defnyddwyr gael mynediad atynt. Er mwyn gwella tryloywder a hygyrchedd i ddefnyddwyr, argymhellir hefyd cynnwys copi o'r hysbysiad cydymffurfio, a dolen i'r Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg mwyaf diweddar. Bydd hyn yn rhoi darlun cyflawn o ddarpariaeth Gymraeg y sefydliad ac yn gwneud y wybodaeth honno'n hawdd ei chanfod.

### **Argymhelliad 3: Sicrhau datganiadau clir ar dudalennau Saesneg**

Mewn achosion lle nad oes 'Hafan Gymraeg' gan y sefydliad, ond yn hytrach tudalennau unigol wedi'u cyfieithu a'u lleoli ar draws y wefan, dylid sicrhau bod datganiad clir ar bob tudalen Saesneg berthnasol yn nodi bod y dudalen ar gael hefyd yn Gymraeg. Byddai hyn yn:

- gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr
- cynyddu tryloywder, ac
- atgyfnerthu cydymffurfiaeth â Safon 34.

# Atodiadau

## Atodiad 1: Data'r arolwg

|   |           |
|---|-----------|
| Nifer a % y sefydliadau sydd yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 33.   | 5 (55.5%) |
| Nifer a % y sefydliadau sydd yn cydymffurfio yn rhannol gyda gofynion safon 33. | 4 (44.4%) |
| Nifer a % y sefydliadau sydd yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 34.   | 6 (66.6%) |
| Nifer a % y sefydliadau sydd yn cydymffurfio yn rhannol gyda gofynion safon 34. | 3 (33.3%) |

## Atodiad 2: Rhestr o'r sefydliadau fu'n rhan o'r arolwg

- Awdurdod Safonau Proffesiynol
- Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyngor Optegol Cyffredinol
- Cyngor Osteopatheg Cyffredinol
- Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Cyngor Fferyllol Cyffredinol